

Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Cowbridge Dental Specialists, Bwrdd
Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Dyddiad yr arolygiad: 09 Rhagfyr 2025

Dyddiad cyhoeddi: 11 Mawrth 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac yn dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	• Ansawdd Profiad y Claf	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	13
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	17
4.	Y camau nesaf	20
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	21
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	22
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	23

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Cowbridge Dental Specialists, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 09 Rhagfyr 2025.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC ac un Adolygydd Cymheiriaid Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Cafwyd 21o ymatebion gan gleifion a phump ymateb gan aelodau o'r staff. Nid atebodd rhai o'r ymatebwyr rai o'r cwestiynau, gan olygu nad oedd ymatebion ar gyfer pob cwestiwn. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Cafwyd adborth cadarnhaol iawn gan gleifion am y gofal a'r gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol. Nododd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth yn 'dda iawn.'

Roedd amrywiaeth dda o wybodaeth wedi'i harddangos i gleifion am orthodonteg a phrosesau tawelyddu, ond ychydig iawn o wybodaeth gyffredinol am ofal iechyd y geg oedd ar gael.

Roedd y staff yn gwrtais ac yn trin y cleifion ag urddas a pharch drwy gydol yr arolygiad.

Gallai cleifion yr oedd angen triniaeth frys arnynt ffonio unrhyw bryd a'r nod oedd iddynt gael eu gweld ar yr un diwrnod. Roedd llawr gwaelod y practis yn ymddangos fel petai wedi'i addasu'n dda ar gyfer pobl sy'n defnyddio cadair olwyn.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod gwybodaeth berthnasol arall am ofal iechyd y geg ar gael i gleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd ystafell ar wahân ar gael ar gyfer trafodaethau cyfrinachol â chleifion
- Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion yn ei chael hi'n hawdd trefnu apwyntiadau
- Roedd hysbysiadau i'w gweld yn hyrwyddo'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer cael triniaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ac roedd sawl aelod o'r staff yn gallu siarad Cymraeg.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y deintyddfeydd yn fodern, mewn cyflwr da ac wedi'u haddurno i safon uchel. Roedd yr ardaloedd i gleifion yn lân ac nid oedd unrhyw beryglon, gan gynnig amgylchedd diogel i gael gofal.

Ar y cyfan, gwelsom fod trefniadau diogelwch tân da ar waith, bod y diffoddwyr tân wedi cael eu gwasanaethu, bod arwyddion ar yr allanfeydd tân ac nad oedd unrhyw rwystrau. Fodd bynnag, roedd angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â rheoli ymarferion tân.

Roedd trefniadau addas ar waith ar gyfer rheoli cyffuriau yn ddiogel ac roedd y cyfarpar i'w ddefnyddio mewn argyfwng yn gyfredol ac ar gael yn hawdd.

Gwelsom fod trefniadau priodol ar waith ar gyfer diogelu plant ac oedolion agored i niwed. Roedd arweinydd wedi'i benodi ac roedd y staff wedi cael hyfforddiant ar y pwnc.

Roedd cofnodion deintyddol y cleifion yn fanwl ac yn hawdd eu dilyn, ond roedd rhai hepgoriadau yr oedd angen mynd i'r afael â nhw.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod y polisi parhad busnes yn gyfredol a bod y broses rheoli fersiynau yn cael ei dogfennu
- Sicrhau bod ymarferion tân yn cael eu cynnal o leiaf ddwywaith y flwyddyn, a bod pob digwyddiad yn cael ei gofnodi mewn cofnodlyfr.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd yr ystafell ddihalogi yn lân ac yn drefnus iawn, ac roedd yr holl gofnodlyfrau'n gyfredol
- Roedd yr arweinydd rheoli heintiau yn wybodus ac yn drefnus iawn
- Roedd cyffuriau brys a chyffuriau tawelyddu yn cael eu rheoli'n dda
- Roedd cydymffurfiaeth dda mewn perthynas â'r cyfarpar a'r cyfleusterau pelydr-X, ac roedd y ffeil radiograffeg yn drefnus.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom bractis a oedd yn cael ei redeg yn effeithiol a'i reoli'n dda, ac roedd strwythur rheoli clir ar waith. Gwelsom systemau addas ar gyfer rhannu gwybodaeth â staff, ac roedd amrywiaeth cynhwysfawr o bolisiâu i helpu'r staff yn eu rolau.

Roedd proses recriwtio briodol ar waith ac roedd yr holl wiriadau angenrheidiol wedi'u cwblhau i sicrhau bod y staff yn addas i weithio yn y practis. Gwelsom gydymffurfiaeth dda iawn â rhwymedigaethau proffesiynol a hyfforddiant.

Gwelsom drefniadau da ar gyfer ceisio adborth gan gleifion, a bod yr adborth hwn yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Roedd gweithdrefn gwyno glir ar waith ac roedd aelod o staff dynodedig wedi'i benodi i ymdrin ag unrhyw gwynion a oedd yn dod i law.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod yr holl fanylion yn ymwneud â'r ymchwiliadau i gwynion yn cael eu cofnodi'n gyson.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd ceisiadau awtomatig am adborth yn cael eu hanfon at gleifion yn dilyn cwrs o driniaeth
- Roedd lefel dda o gydymffurfiaeth â hyfforddiant staff gorfodol
- Roedd cynllun da ar waith ar gyfer cynnal archwiliadau clinigol fel rhan o weithgarwch gwella ansawdd y practis.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Roedd yr ymatebion a gafwyd i holiadur AGIC yn gadarnhaol ar y cyfan. Dywedodd 19 o'r 21 o ymatebwyr fod y gwasanaeth naill ai'n 'dda' neu'n 'dda iawn.'

Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

"Mae'r staff yn ddymunol iawn. Amgylchedd hamddenol. Mae'r staff bob amser yn rhoi tawelwch meddwl i mi. Apwyntiadau effeithlon iawn a hawdd eu trefnu. Rwy'n hapus iawn â'r driniaeth rwy'n ei chael."

"Alla i ddim cwyno am y practis. O lefel y gofal, y wybodaeth, yr arweiniad a'r help, mae pawb wedi bod yn arbennig."

"Hoffwn ddiolch i chi i gyd am y gofal a'r driniaeth... mae'r practis yn wych ac mae'r staff yn ofalgar iawn a bob amser yn ceisio trefnu apwyntiad i mi a datrys unrhyw broblemau. Diolch yn fawr iawn i chi i gyd."

Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Hybu Iechyd

Gwelsom fod llawer o wybodaeth wedi'i harddangos am y gwasanaethau orthodonteg a thawelyddu a oedd ar gael yn y practis. Roedd costau triniaethau a phroses gwyno'r practis hefyd yn cael eu harddangos. Roedd y practis yn defnyddio sgrin ddigidol i ddarparu gwybodaeth ychwanegol a oedd yn newid o un sgrin wybodaeth i'r nesaf yn barhaus. Fodd bynnag, ychydig iawn o wybodaeth gyffredinol am ofal iechyd deintyddol oedd ar gael, fel cyngor ar roi'r gorau i smygu, gofal y geg ataliol a deiet.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod gwybodaeth berthnasol ychwanegol am ofal iechyd y geg ar gael i gleifion yn y practis.

Roedd gan y practis ddatganiad o ddiben a thaflen wybodaeth i gleifion cyfredol, yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Roedd y rhain yn darparu

gwybodaeth ddefnyddiol i gleifion am y gwasanaethau a gynigir yn y practis. Fodd bynnag, nid oedd y dogfennau hyn ar gael ar wefan y practis. Gwnaethom godi hyn â'r rheolwr cofrestredig a aeth ati i unioni'r mater hwn yn fuan ar ôl yr arolygiad.

Roedd enwau'r tîm deintyddol a'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u harddangos mewn man lle y gellid eu gweld yn hawdd.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn yn holiadur AGIC i gleifion wrthym fod y staff wedi esbonio gofal y geg wrthynt mewn ffordd y gallent ei deall a'u bod wedi rhoi cyfarwyddiadau ôl-ofal iddynt ar sut i gynnal iechyd y geg da.

Gofal Urddasol a Pharchus

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod y staff yn gwrtais ac yn gyfeillgar a'u bod yn trin y cleifion â pharch a charedigrwydd. Er bod desg y dderbynfa a'r ardal aros yn yr un ystafell, roeddem o'r farn bod digon o bellter rhwng y ddwy ardal fel bod modd cynnal trafodaethau cyfrinachol. Gellid cynnal trafodaethau cyfrinachol a sensitif mewn preifatrwydd yn swyddfa'r cydgysylltydd triniaethau. Roedd cytundeb cyfrinachedd ar waith ac yn rhan o gontractau cyflogaeth y staff.

Gwelsom fod drysau'r deintyddfeydd yn cael eu cau yn ystod triniaethau er mwyn cynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion. Roedd ffilm ddi-draidd ar y ffenestri er mwyn atal pobl rhag gallu gweld i mewn i'r deintyddfeydd o'r coridor.

Roedd naw egwyddor ymarfer moesegol craidd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC) i'w gweld yn glir yn yr ardal aros, yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Roedd pob ymatebydd ond un a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion yn teimlo eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch yn y practis.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Dywedodd pob ymatebydd ond un a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall yr opsiynau triniaeth oedd ar gael, a'u bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall y risgiau a'r manteision a oedd yn gysylltiedig â'r opsiynau triniaeth hynny. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno eu bod wedi cael gwybodaeth glir am y prisiau cyn iddynt gael triniaeth.

Dywedodd pob ymatebydd ond un wrthym eu bod wedi cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu triniaeth a gwnaethant gadarnhau bod y staff wedi gwirio eu hanes meddygol cyn iddynt gael triniaeth.

Gwelsom fod arwyddion wedi'u harddangos i atgoffa'r cleifion i roi gwybod i'r practis am unrhyw newidiadau i'w hanes meddygol, ac roedd hyn yn arfer da yn ein barn ni.

Amserol

Gofal Amserol

Dywedwyd wrthym y byddai tîm y dderbynfa yn rhoi gwybod i'r cleifion am unrhyw oedi hysbys o ran amser eu hapwyntiad. Dywedwyd wrthym y byddai cleifion yn aros rhwng pedair ac wyth wythnos rhwng triniaethau yn dibynnu ar ba gam roeddent arni yn y cwrs o driniaeth.

Dywedwyd wrthym y gallai cleifion yr oedd angen triniaeth frys arnynt gysylltu â'r practis unrhyw bryd ac y byddai'r mwyafrif ohonynt yn cael eu gweld ar yr un diwrnod, neu o fewn 24 awr ar y mwyafrif. Roedd oriau agor y practis, ynghyd â'r manylion cyswllt y tu allan i oriau wedi'u harddangos yn glir y tu allan i'r adeilad, ond nid oedd yn hawdd dod o hyd iddynt ar wefan y practis.

Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion yn ei chael hi'n hawdd trefnu apwyntiadau pan fo angen. Er bod y mwyafrif o'r ymatebwyr wedi dweud eu bod yn gwybod sut i gael gafael ar wasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai problem ddeintyddol frys yn codi, dywedodd pedwar ymatebydd nad oeddent yn gwybod.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Gwelsom fod rhywfaint o wybodaeth ysgrifenedig wedi'i harddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg yn y practis, a bod sawl aelod o'r staff yn gallu cyfathrebu yn Gymraeg hefyd. Gallai'r practis ddefnyddio gwasanaeth cyfieithu priodol ar gyfer cleifion nad Saesneg oedd eu hiaith gyntaf. Gwelsom hysbysiad yn yr ardal aros yn hyrwyddo'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer darparu gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ac roedd y ffolder gwybodaeth i gleifion yn cynnwys deunydd hybu'r Gymraeg ychwanegol.

Dywedodd pedwar o'r cleifion a ymatebodd i'r holiadur mai Cymraeg oedd eu dewis iaith. Dywedodd tri o'r ymatebwyr eu bod yn teimlo'n gyfforddus yn defnyddio'r Gymraeg yn y lleoliad. Dywedodd un claf:

“Roedd yn braf iawn cael gwasanaeth yn Gymraeg. Dylai mwy o'r deintyddion siarad Cymraeg da.”

Gellid trefnu apwyntiadau ar gyfer ymgynghoriad drwy system trefnu apwyntiadau ar-lein y practis, ac roedd apwyntiadau triniaeth ddilynol yn cael eu trefnu gan y

clinigydd a'u rhannu â'r cleifion drwy neges destun, e-bost neu gerdyn apwyntiad tra roedd y claf yn y dderbynfa.

Dywedwyd wrthym y gallai cleifion gael gwybodaeth mewn fformatau eraill fel print bras. Roedd dolen sain wedi'i gosod i helpu cleifion trwm eu clyw.

Hawliau a Chydraddoldeb

Gwelsom fod gofal deintyddol yn cael ei ddarparu yn y practis mewn ffordd a oedd yn cydnabod anghenion a hawliau'r cleifion. Gwelsom fod polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth cyfredol ar waith a bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar y pwnc hwn. Rhoddwyd sicrwydd i ni fod hawliau cleifion trawsryweddol yn cael eu cynnal, gan gynnwys defnyddio enwau a rhagenwau a ffefrir.

Roedd y practis wedi'i leoli ar y llawr gwaelod ac roedd pob un o'r deintyddfeydd a'r ystafelloedd pelydr-X wedi'u haddasu'n effeithiol ar gyfer cleifion ag anawsterau symudedd, gan gynnwys drysau llydan, llawr gwastad a thoiled hygyrch. Gwelsom fod ardal is wrth y ddesg flaen er mwyn helpu pobl sy'n defnyddio cadair olwyn i siarad â staff y dderbynfa.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion wrthym nad oeddent wedi profi gwahaniaethu wrth gael gafael ar y gwasanaethau a ddarperir gan y practis. Roedd y rhan fwyaf o'r farn bod yr adeilad yn hygyrch, ond dywedodd un ymatebydd nad oedd yn siŵr.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli Risg

Gwelsom fod y practis deintyddol mewn cyflwr da, gyda deintyddfeydd mawr â chynllun cyson a oedd wedi'u goleuo'n dda a'u haerdymheru. Y tu mewn i'r adeilad, roedd yr amgylchedd wedi'i addurno a'i ddodrefnu i safon uchel gydag ardaloedd aros cyfforddus heb unrhyw annibendod na pheryglon. Gwelsom bolisi ar gyfer cynnal a chadw'r adeilad er mwyn helpu i sicrhau bod y safle bob amser yn addas at y diben.

Gwelsom drefniadau addas i'r staff newid eu dillad, a bod eiddo personol yn cael ei storio'n ddiogel yn yr ystafell i staff yn unig. Roedd polisïau cyfredol addas ar waith ar iechyd a diogelwch a rheoli risgiau yn y practis. Roedd poster iechyd a diogelwch cymeradwy a thystysgrif yswiriant atebolrwydd y cyflogwr yn cael ei harddangos fel sy'n ofynnol.

Gwelsom fod polisi parhad busnes ar waith i helpu i sicrhau bod y practis yn parhau i gael ei redeg yn ddiogel mewn argyfwng. Roedd y polisi hwn yn cynnwys y manylion cyswllt brys perthnasol a manylion practis deintyddol lleol y gellid ei ddefnyddio fel lleoliad wrth gefn. Fodd bynnag, nid oedd y ddogfen hon yn cynnwys dyddiad adolygu.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y polisi parhad busnes yn gyfredol a bod unrhyw ddyddiadau adolygu yn cael eu cofnodi fel rhan o broses rheoli fersiynau'r ddogfen.

Rhodddwyd sicrwydd i ni fod yr holl ddyfeisiau yn y practis yn ddiogel i'w defnyddio, ac roedd yr Adroddiad ar Gyflwr Gosodiadau Trydanol, a gaiff ei gwblhau bob pum mlynedd, cofnodion Profion Offer Cludadwy (PAT), a'r dystysgrif diogelwch nwy blynyddol wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Roedd gan y practis gontract cynnal a chadw cyfarpar tân cyfredol ar waith gyda darparwr allanol. Gwelsom fod yr allanfeydd tân yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda a bod arwyddion ar eu cyfer, a bod yr holl ddiffoddwyr tân wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roedd asesiad risg tân wedi'i gwblhau'n ddiweddar, a gwnaethom drafod pwysigrwydd sicrhau ei fod yn cael ei adolygu bob blwyddyn. Dywedwyd wrthym fod ymarferion tân yn cael eu cynnal unwaith y flwyddyn, ac nad oeddent yn cael eu cofnodi.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod ymarferion tân yn cael eu cynnal o leiaf ddwywaith y flwyddyn, a bod pob digwyddiad yn cael ei gofnodi mewn cofnodlyfr.

Gwelsom arwyddion ym mhob rhan o'r practis yn rhoi gwybod i ymwelwyr nad oedd smygu yn cael ei ganiatáu ar y safle, yn unol â'r ddeddfwriaeth. Gwelsom dystiolaeth bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelwch tân.

Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi

Roedd y deintyddfeydd yn ymddangos yn lân ac wedi'u dodrefnu mewn ffordd addas fel bod modd rheoli heintiau yn effeithiol, ac roedd amserlenni ar waith i gefnogi arferion glanhau effeithiol. Roedd cyfleusterau golchi dwylo addas ar gael ym mhob deintyddfa a thoiled, a gwelsom fod cyfarpar diogelu personol priodol ar gael yn hawdd i'r staff ei ddefnyddio. Roedd arweinydd atal a rheoli heintiau dynodedig wedi cael ei benodi a oedd yn wybodus iawn.

Roedd polisi atal a rheoli heintiau priodol ar waith, a gwelsom dystiolaeth o archwiliadau rheoli heintiau rheolaidd yn y ffeil archwilio. Gwelsom fod y staff wedi cwblhau hyfforddiant perthnasol ar atal heintiau a dihalogi.

Dywedodd pob un o'r cleifion a atebodd y cwestiwn yn holiadur AGIC wrthym fod y practis yn lân iawn a bod y staff yn dilyn mesurau atal a rheoli heintiau.

Roedd protocolau ar waith yn y practis ar gyfer anafiadau offer miniog, a gwelsom fod siartiau llif anafiadau a achosir gan nodwydd ar gael ym mhob deintyddfa y gallai'r staff gyfeirio atynt yn gyflym pe bai digwyddiad yn codi. Roedd gwasanaethau iechyd galwedigaethol y bwrdd iechyd lleol ar gael i'r practis.

Roedd ystafell ddihalogi ddynodedig ar gael yn y practis a oedd wedi'i threfnu'n dda, a dangoswyd trefniadau addas ar gyfer dihalogi offer deintyddol aml dro. Gwelsom restrau gwirio dyddiol a chofnodion cylchred cyfredol. Gwelsom dystiolaeth o waith cynnal a chadw rheolaidd a gwiriadau cyfnodol o'r cyfarpar dihalogi yn ôl yr angen.

Gwelsom fod contract cyfredol ar waith i drosglwyddo gwastraff yn ddiogel o'r practis. Roedd gwastraff clinigol a gynhyrchwyd gan y practis yn cael ei storio'n ddiogel nes iddo gael ei gasglu.

Roedd trefniadau addas ar waith mewn perthynas â sylweddau sy'n destun rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH), ynghyd â ffeil cynhwysfawr a oedd yn cael ei adolygu'n rheolaidd.

Rheoli Meddyginiaethau

Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw feddyginiaethau'n cael eu storio yn y practis, heblaw cyffuriau tawelyddu a chyffuriau ar gyfer argyfyngau meddygol. Roedd polisi ysgrifenedig priodol ar waith ar gyfer ymateb i argyfyngau meddygol yn y practis ynghyd â threfniadau addas ar gyfer argyfyngau lle roedd dulliau tawelyddu yn cael eu defnyddio.

Gwnaethom archwilio'r cyfarpar brys a'r meddyginiaethau yn y practis a gwnaethom gadarnhau bod yr holl feddyginiaethau'n cael eu storio'n briodol a bod proses addas ar waith ar gyfer gwaredu unrhyw gyffuriau yr oedd y dyddiad defnyddio arnynt wedi mynd heibio. Gwelsom dystiolaeth bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar adfywio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Gwelsom fod gwaith cynnal a chadw a gwasanaethu ar gyfer y silindrau ocsigen wedi cael ei gynnal a bod y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant perthnasol i'w defnyddio. Gwelsom fod y pecyn cymorth cyntaf yn cynnwys stoc briodol a bod swyddog cymorth cyntaf hyfforddedig wedi cael ei benodi. Roedd disgwyl i swyddog arall gwblhau'r hyfforddiant ym mis Ionawr 2026 er mwyn sicrhau bod swyddog ar gael yn ystod absenoldeb staff.

Rheoli Dyfeisiau a Chyfarpar Meddygol

Gwelsom fod cyfarpar addas ar gael ym mhob un o'r deintyddfeydd i ddarparu triniaethau deintyddol diogel ac effeithiol, gan gynnwys cyfarpar tawelyddu. Roedd y cyfarpar clinigol yn ymddangos yn lân ac mewn cyflwr da a gwelsom dystiolaeth o'r contractau cynnal a chadw a oedd ar waith ar gyfer pob dyfais.

Gwelsom ddogfennaeth a oedd yn dangos trefniadau diogel ar gyfer defnyddio'r cyfarpar pelydr-X, gan gynnwys asesiad risg ymbelydredd cyfredol. Roedd arwyddion pelydr-X priodol wedi'u harddangos y tu allan i'r ystafelloedd perthnasol, a gwelsom dystiolaeth bod y cyfarpar pelydr-X yn cael ei gynnal a'i gadw a'i profi fel sy'n ofynnol. Roedd rhaglen sicrhau ansawdd briodol ar waith ar gyfer defnyddio'r cyfarpar hwn.

Gwelsom dystiolaeth bod pob aelod o'r staff a oedd yn defnyddio'r pelydrau-X a dulliau tawelyddu wedi cwblhau'r hyfforddiant angenrheidiol.

Diogelu Plant ac Oedolion

Gwelsom bolisi addas mewn perthynas â diogelu plant ac oedolion agored i niwed a oedd yn cynnwys manylion cyswllt y tîm diogelu lleol perthnasol. Roedd gan y practis arweinydd diogelu dynodedig ac roedd y canllawiau diweddaraf ar gael i'r staff drwy ap Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

Roedd pob aelod o'r staff wedi'i hyfforddi'n briodol ac yn meddu ar wybodaeth am brosesau amddiffyn plant ac oedolion, ac roedd siartiau llif diogelu y gellid cyfeirio atynt yn gyflym ar gael i gynorthwyo'r staff pe bai ganddynt bryder. Dywedwyd wrthym fod cymorth llesiant ar gael i'r staff drwy dîm iechyd galwedigaethol y bwrdd iechyd lleol.

Effeithiol

Gofal Effeithiol

Gwelsom fod digon o staff wedi'u hyfforddi ar gael yn y practis i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn wybodus am eu rolau a'u cyfrifoldebau. Rhoddwyd sicrwydd i ni fod y canllawiau statudol yn cael eu dilyn wrth ddarparu gofal deintyddol a bod cyngor proffesiynol perthnasol ar gael i'r staff lle bo angen. Gwelsom fod rhestrau gwirio a argymhellir yn cael eu defnyddio er mwyn lleihau'r risg o dynnu'r dant anghywir.

Cofnodion Cleifion

Gwelsom fod system addas ar waith i helpu i sicrhau bod cofnodion y cleifion yn cael eu rheoli'n ddiogel. Dywedwyd wrthym fod y cofnodion cleifion yn cael eu cadw am y cyfnodau priodol o amser yn unol â'r Rheoliadau.

Gwnaethom edrych ar sampl o 10 cofnod gofal deintyddol ar gyfer amrywiaeth o gleifion. Yn gyffredinol, roeddem o'r farn bod cofnodion y cleifion yn glir, yn gynhwysfawr ac o ansawdd da iawn. Fodd bynnag, gwnaethom nodi rhai hepgoriadau yn y cofnodion. Nid oedd gwiriadau hanes meddygol ar lafar, cyfiawnhad dros gynnal archwiliadau pelydr-X, archwiliadau periodontol sylfaenol na phrofion sgrinio am ganser y geg yn cael eu cofnodi'n gyson. Gwelsom hefyd nad oedd dewis iaith y cleifion yn cael ei gofnodi, ond dywedwyd wrthym fod y practis bellach wedi rhoi'r broses hon ar waith, a gwelsom dystiolaeth i gadarnhau hyn.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'n canfyddiadau mewn perthynas â chyflawnder cofnodion y cleifion.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan staff

Ymatebodd pum aelod o staff i holiadur AGIC a chafwyd ymatebion cadarnhaol ar y cyfan. Roedd y sylwadau yn ymwneud ag urddas y cleifion a llesiant y staff yn gadarnhaol, ac roedd pob un o'r ymatebwyr yn fodlon mai gofal cleifion oedd prif flaenoriaeth y practis. Dywedodd pob un ohonynt y byddent yn hapus gyda safon y gofal a ddarperir pe bai angen triniaeth ar ffrind neu berthynas.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr eu bod o'r farn bod y cyfleusterau yn briodol i gyflawni eu tasgau, gyda deunyddiau digonol a mynediad i dechnolegau gwybodaeth i gyflawni eu dyletswyddau. Dywedodd pob un ohonynt fod cyfarpar diogelu personol priodol ar gael a'i fod yn cael ei ddefnyddio. Fodd bynnag, er bod pob un o'r ymatebwyr wedi dweud bod cymysgedd priodol o sgiliau yn y practis, nid oedd un ymatebydd yn cytuno bod digon o staff i'w alluogi i wneud ei waith yn iawn.

Roedd y rhan fwyaf o'r staff (4/5) a gwblhaodd holiadur AGIC yn cytuno bod eu patrwm gwaith yn eu galluogi i gael cydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith a dywedwyd y byddent yn argymhell y practis fel lle da i weithio.

Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y staff yn cynnwys y canlynol:

“Practis amlldisgyblaethol hyfryd a chyfeillgar i weithio ynddo, gyda phawb yn gweithio'n dda fel tîm i ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar y claf. Mae'r safonau gofal yn cael eu cynnal i lefel uchel.”

“Byddai cael nyrs ddihalogi yn helpu pan fydd y clinigau'n brysur ac wrth baratoi ar gyfer apwyntiadau 10 munud gan ddefnyddio un awtoclaf addas yn unig.”

Fodd bynnag, dywedodd un aelod o'r staff:

“Mae diffyg cyfathrebu o fewn y tîm deintyddol.”

Efallai yr hoffai'r practis fyfyrion ar yr adborth hwn er mwyn sicrhau bod dulliau cyfathrebu effeithiol ym mhob rhan o'r tîm deintyddol.

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Roedd strwythur rheoli clir ar waith, a rheolwr y practis a'r prif ddeintydd oedd yn gyfrifol am redeg y practis o ddydd i ddydd gyda chymorth tîm ehangach y practis. Gwelsom fod y practis yn cael ei arwain yn dda a bod ymrwymiad clir i ddarparu gwasanaeth o safon uchel. Ar ddiwrnod ein hymweliad, gwelsom fod aelodau'r tîm rheoli yn barod iawn i siarad â'r staff ac roedd yn hawdd mynd atynt.

Roedd trefniadau addas ar waith ar gyfer rhannu gwybodaeth berthnasol a hysbysiadau diogelwch brys, gan gynnwys drwy gyfarfodydd staff rheolaidd. Gwelsom fod cofnodion cyfarfodydd yn cael eu cadw a'u rhannu â'r staff. Roedd yn ymddangos bod y cofnodion hyn yn drefnus iawn, ond nid oedd pwyntiau gweithredu allweddol bob amser yn cael eu nodi. Gwnaethom drafod rhoi system ar waith i gadarnhau bod y staff wedi darllen y rhain fel mater o drefn.

Gwelsom fod amrywiaeth gynhwysfawr o bolisiau ysgrifenedig ar gael i gefnogi'r staff yn eu rolau. Roedd yr holl bolisiau wedi cael eu hadolygu'n rheolaidd ac roedd cofrestr polisiau yn cael ei chadw ar system gyfrifiadurol y practis.

Roedd y rhan fwyaf o'r staff (4/5) a gwblhaodd holiadur AGIC yn cytuno bod cyfleoedd teg a chyfartal ar gael iddynt yn y gweithle, ac yn teimlo bod y gweithle yn cefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Y Gweithlu

Gweithlu Medrus a Galluog

Roeddem o'r farn bod cymysgedd sgiliau a nifer y staff yn briodol ar gyfer y gwasanaethau deintyddol a ddarperir.

Roedd polisi recriwtio cyfredol ar waith yn y practis a oedd yn nodi'r gofynion mewn perthynas â chyflogi staff yn y practis deintyddol. Gwelsom fod proses sefydlu addas ar waith i sicrhau bod aelodau newydd o staff yn ymwybodol o weithdrefnau'r practis a'u bod yn gymwys i gyflawni eu rôl.

Gwnaethom edrych ar ffeiliau personél y staff a oedd yn gweithio yn y practis a gwelsom dystiolaeth o gydymffurfiaeth â rhwymedigaethau proffesiynol, fel cofrestriad â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, yswiriant indemnïad a thystysgrifau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Dywedwyd wrthym fod cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau'r gweithlu yn cael ei monitro gan dîm rheoli'r practis.

Gwelsom fod y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w rolau. Roedd cydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant gorfodol yn dda, ac roedd rheolwyr y practis yn monitro hyn yn addas. Wrth edrych ar ffeiliau'r staff, gwelsom eu bod yn cael arfarniadau rheolaidd i adolygu perfformiad unigol a nodi anghenion datblygu.

Diwylliant

Ymgysylltu â Phobl, Adborth a Dysgu

Dywedwyd wrthym fod adborth gan gleifion yn cael ei gasglu drwy neges e-bost awtomatig a anfonir at bob claf yn dilyn cwrs o driniaeth. Disgrifiwyd dulliau addas eraill, gan gynnwys llyfr sylwadau yn y dderbynfa, i alluogi cleifion heb fynediad digidol i roi adborth. Gwnaethom drafod defnyddio blwch awgrymiadau er mwyn galluogi cleifion i roi unrhyw adborth yn ddiennw. Dywedwyd wrthym fod adborth yn cael ei adolygu a'i drafod yn rheolaidd mewn cyfarfodydd tîm.

Gwelsom fod gweithdrefn gwyno'r practis ar gael mewn ffolder i gleifion yn yr ardal aros. Roedd hyn yn nodi'r aelod o staff a oedd wedi'i benodi i ymdrin â chwynion, ac yn cynnwys manylion sefydliadau eraill y gallai'r cleifion fynd atynt os nad oedd yn fodlon ar yr ymateb. Gwnaethom edrych ar y ffolder cwynion a gwelsom mai dim ond nifer bach oedd wedi'u codi. Roedd y rheini a welsom wedi'u dogfennu'n dda gydag ymatebion amserol yn unol â gweithdrefn y practis. Fodd bynnag, nid oedd nodiadau'r ymchwiliad i un gŵyn yn cynnwys dyddiadau.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod dyddiadau'r holl gamau gweithredu a gymerwyd fel rhan o'r broses ymchwilio yn cael eu cofnodi'n briodol.

Dysgu, Gwella ac Ymchwil

Gweithgareddau Gwella Ansawdd

Roedd gan Cowbridge Dental Specialists bolisi gwella'r practis a chynllun da ar gyfer archwiliadau ar waith fel rhan o'i weithgarwch gwella ansawdd. Gwelsom enghreifftiau o archwiliadau a oedd wedi cael eu cwblhau'n ddiweddar, gan gynnwys archwiliadau radiograffeg, rheoli heintiau, rheoli cofnodion ac amseroedd aros cleifion. Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod newidiadau wedi'u gwneud o ganlyniad i'r archwiliadau hyn ac adolygiadau cenedlaethol.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn cynnal adolygiadau cymheiriaid yn rheolaidd gyda'i staff clinigol, a bod pob aelod arbenigol o'r staff yn gweithio mewn practisau ac ysbytai eraill hefyd, a oedd yn rhoi llawer o gyfleoedd iddynt adolygu cymheiriaid.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni chafodd unrhyw bryderon uniongyrchol eu datrys yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Cowbridge Dental Specialists

Dyddiad yr arolygiad: 09 Rhagfyr 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.					

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Cowbridge Dental Specialists

Dyddiad yr arolygiad: 09 Rhagfyr 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ychydig iawn o wybodaeth gyffredinol am ofal ieched deintyddol oedd ar gael, fel cyngor ar roi'r gorau i smygu, gofal y geg ataliol a deiet.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod gwybodaeth berthnasol ychwanegol am ofal ieched y geg ar gael i gleifion yn y practis.	Safon Ansawdd - Canolbwyntio ar y Claf	Byddwn yn darparu gwybodaeth ysgrifenedig ar gyfer oedolion a phlant. Bydd y wybodaeth hon ar ffurf taflenni i'w darllen a'u cadw, yn ogystal â phosteri a gaiff eu harddangos mewn ardaloedd ar wahân, er enghraifft y toiled i gleifion. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth am y canlynol:	Rheolwr cofrestredig	Diwedd mis Chwefror 2026

			1. Cynnal hylendid y geg da (technegau brwshio dannedd addas). 2. Cyngor ataliol (bwyta'n iach a chyngor ar ddeiet), rhoi'r gorau i smygu a fepio, ac yfed llai o alcohol.		
Nid oedd y polisi parhad busnes yn cynnwys dyddiad adolygu.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y polisi parhad busnes yn gyfredol a bod unrhyw ddyddiadau adolygu yn cael eu cofnodi fel rhan o broses rheoli fersiynau'r ddogfen.	Rheoliad 8(1)(o)	Byddwn yn diweddaru'r polisi parhad busnes â ffordd o gofnodi dyddiadau adolygu	Rheolwr cofrestredig	Caiff y polisi ei ddiweddaru ar unwaith a'i adolygu'n flynyddol.
Dywedwyd wrthym fod ymarferion tân yn cael eu cynnal unwaith y flwyddyn yn unig, ac nad oeddent yn cael eu cofnodi.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod ymarferion tân yn cael eu cynnal o leiaf ddwywaith y flwyddyn, a bod pob digwyddiad yn	Rheoliad 22(4)(d)	Nodi ymarferion tân bob chwe mis mewn dyddiadur a chofnodi presenoldeb a'r dyddiad.	Rheolwr cofrestredig	Ar unwaith.

	cael ei gofnodi mewn cofnodlyfr.				
Gwnaethom nodi rhai hepgoriadau yng nghofnodion y cleifion.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'n canfyddiadau mewn perthynas â chyflawnder cofnodion y cleifion.	Rheoliad 20(1)	Yn ystod cyfarfod nesaf y practis, byddwn yn tynnu sylw'r staff at yr hepgoriadau mewn perthynas â chyflawnder cofnodion y cleifion. Caiff archwiliadau rheolaidd eu cynnal o'r nodiadau clinigol.	Rheolwr cofrestredig	Ar unwaith.
Roedd y rhan fwyaf o'r cwynion wedi'u dogfennu'n dda gydag ymatebion amserol yn unol â gweithdrefn y practis. Fodd bynnag, nid oedd nodiadau'r ymchwiliad i un gŵyn yn cynnwys dyddiadau.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod dyddiadau'r holl gamau gweithredu a gymerwyd fel rhan o'r broses ymchwilio yn cael eu cofnodi'n briodol.	Rheoliad 21(5)	Rhoddwyd gwybod i'r rheolwr cofrestredig am y diffyg dyddiadau. Rhaid dilyn y cofnodlyfr cwynion ac adolygu unrhyw gwynion ar y cyd â'r rheolwr cofrestredig.	Rheolwr cofrestredig	Ar unwaith.

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Clare Evans

Teitl swydd: Rheolwr cofrestredig

Dyddiad: 05/02/2026